# Hysbyseb Swydd

pdsa
SAVING PETS CHANGING LIVES




**Rôl Swydd:**

**Nyrs Filfeddygol - Llundain**

**Tâl:**

**£23,096 - £25,221 y flwyddyn**

**Oriau:**

**37.5 awr yr wythnos**

**Contract:**

**Llawn Amser**

## Ynglŷn â'r Rôl:

Rydyn ni am recriwtio Nyrs Filfeddygol gymwys a fydd yn darparu gwasanaeth a gofal cwsmeriaid o safon uchel i'r anifeiliaid anwes sy'n gleifion a'u perchnogion.

Byddwch chi'n gweithio fel rhan o dîm sy'n rhoi cymorth yn ystod llawdriniaeth, yn darparu gofal i'r anifeiliaid ac yn cynnal ymgynghoriadau, yn derbyn a chofnodi cleifion ac yn anfon cleifion adref. Hefyd, mae ein Nyrsys Milfeddygol yn rhoi meddyginiaethau i gleientiaid eu rhoi i'w hanifeiliaid anwes gartref, yn annog rhoddion ac yn glanhau'r ysbyty a'r offer.

Rydyn ni'n cynnig buddion gwych sy'n cynnwys:

- Cyfleoedd gyrfa rhagorol
- Gwyliau banc â thâl
- Wythnos waith 37.5 awr
- Yswiriant bywyd sydd 4 x cyflog blynyddol
- 5 wythnos o wyliau â thâl y flwyddyn
- Cynllun pensiwn

## Ynglŷn â PDSA:

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Nyrs Filfeddygol gymwys, a disgwylir iddo ddiweddaru ei wybodaeth broffesiynol drwy gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Bydd angen iddo fod yn ymrwymedig i weledigaeth a chenhadaeth PDSA hefyd.

Gall y dyddiad cau ar gyfer y swydd wag hon gael ei newid os byddwn ni'n derbyn digon o geisiadau.

## Amdanoch chi:

Fel prif elusen filfeddygol y DU, gyda 48 o Ysbytai Anifeiliaid Anwes, rydyn ni'n ymdrechu i wella bywydau anifeiliaid anwes – drwy atal, addysg a thriniaeth. Bob blwyddyn, mae ein timau milfeddygol ymroddedig yn cynnal 2.7 miliwn o driniaethau ar 470,000 o anifeiliaid anwes.  Mae ein rhwydwaith cenedlaethol o tua 121 o siopau stryd fawr yn ein helpu ni i ddarparu'r triniaethau hyn drwy werthu nwyddau a roddwyd a nwyddau newydd.

Rydyn ni'n credu ein bod ni'n gweithio'n well gyda'n gilydd, felly mae pob un o'n milfeddygon, gwirfoddolwyr, timau siopau a chydweithwyr cymorth swyddfa yn gwbl ymroddgar ac yn angerddol am anifeiliaid anwes. Ymunwch â ni i helpu i wella bywydau pob anifail anwes.

# GetPetWise
© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585
pdsa.org.uk